**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 2932 (Cy.265)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn trosi o ran Cymru Gyfarwyddeb y Cyngor 2005/94/EC ar fesurau Cymunedol i reoli ffliw adar a honno'n Gyfarwyddeb sy'n diddymu Cyfarwyddeb 92/40/EEC (OJ Rhif L10, 14.1.2006, t. 16) i'r graddau y mae'n ymdrin â brechu yn erbyn ffliw adar.

Mae Rheoliad 5 yn gosod gwaharddiad cyffredinol ar frechu anifeiliaid yn erbyn ffliw adar ac eithrio pan fo'n ofynnol neu wedi'i drwyddedu gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Rheoliadau 6 a 7 yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol, os yw'n barnu ei bod yn angenrheidiol er mwyn lleihau risg lledu ffliw adar, ddatgan parthau brechu mewn ardaloedd sy'n cynnwys dofednod neu adar caeth eraill y mae'n barnu y dylent gael eu brechu, neu gyflwyno hysbysiadau brechu i feddianwyr mangreoedd lle y mae'r cyfryw adar yn cael eu cadw. Mae Rheoliad 8 yn rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol y pŵer i wneud brechu'n ofynnol yn y parthau hyn neu yn y cyfryw fangreoedd. Ni chaniateir cyflawni'r cyfryw fesurau ond pan fônt yn unol â chynllun brechu a gymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd a phan fo asesiad risg wedi'i wneud a bod hwnnw wedi dangos bod bygythiad arwyddocaol ac uniongyrchol y byddai ffliw adar yn ymledu yng Nghymru neu i Gymru, neu fod ardaloedd penodol neu adar penodol yn agored beth bynnag i risg ffliw adar. Bydd y mesurau hyn yn fesurau brys neu'n fesurau atal, gan ddibynnu ar natur y risg. Mae Rheoliad 7 hefyd yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol roi trwyddedau i feddianwyr mangreoedd sy'n caniatáu brechu adar, neu gategorïau penodol o

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 2932 (W.265)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

## The Avian Influenza (Vaccination) (Wales) (No.2) Regulations 2006

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations transpose, in relation to Wales, Council Directive 2005/94/EC on Community measures for the control of avian influenza repealing Directive 92/40/EEC (OJ No. L10, 14.1.2006, p. 16) insofar as it deals with vaccination against avian influenza.

Regulation 5 imposes a general prohibition on vaccination of birds against avian influenza except where required or licensed by the National Assembly.

Regulations 6 and 7 permit the National Assembly, if it considers it necessary to reduce the risk of the spread of avian influenza, to declare vaccination zones in areas that contain poultry or other captive birds that it considers should be vaccinated, or to serve vaccination notices on premises where such birds are kept. Regulation 8 gives the National Assembly the power to require vaccination in these zones or on such premises. Such measures can only be carried out in accordance with a vaccination plan approved by the European Commission and where a risk assessment has been carried out that has indicated that there is a significant and immediate threat of avian influenza spreading within or into Wales, or that certain areas or birds are in any event exposed to a risk of avian influenza. These measures will be emergency or preventive, depending on the nature of the risk. Regulation 7 also permits the National Assembly to grant licences to occupiers of premises that permit vaccination of birds, or certain categories of birds, on those premises. Such a measure can only be carried out on a preventive basis and where

adar, yn y mangreoedd hynny. Ni chaniateir cyflawni'r cyfryw fesur ond ar sail ataliol a phan fo asesiad risg yn dangos bod yr adar yn y mangreoedd yn agored i risg ffliw adar.

Mae Rheoliad 9 yn darparu ar gyfer mesurau sy'n gymwys mewn parth brechu neu fangre sy'n destun hysbysiad brechu neu drwydded brechu. Mae Rheoliad 10 yn darparu, pan fo gwaith brechu brys yn cael ei wneud cyn bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cymeradwyo'r cynllun brechu cenedlaethol brys, bod gwaharddiad cyffredinol ar symud dofednod, adar caeth eraill a'u hwyau o'r naill fangre mewn parth brechu brys i'r llall mewn parth brechu brys, i mewn i unrhyw barth brechu brys ac allan ohono ac i mewn i unrhyw fangre sy'n destun hysbysiad brechu ac allan ohoni oni bai bod y symudiad yn un o'r symudiadau a ganiateir ac a restrir yn yr Atodlen a bod y symudiad wedi'i drwyddedu.

Mae a wnelo rheoliadau 14 i 24 â phwerau arolygwyr, tramgwyddau a gorfodi'r gyfraith. Mae rheoliad 21 yn cymhwyso darpariaethau sy'n gysylltiedig â thramgwyddau o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (p.22) fel petai'r Rheoliadau wedi'u gwneud o dan y Ddeddf honno. O ganlyniad, tramgwydd yw methu â chydymffurfio â'r Rheoliadau o dan adran 73 o'r Ddeddf. Mae rheoliad 21(3) yn darparu bod person sy'n euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn agored ar gollfarn ddiannod i gyfnod yn y carchar nad yw'n hwy na 3 mis neu i ddirwy nad yw'n fwy na £5000 neu'r ddau.

Mae rheoliad 25 yn dirymu Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) 2006.

Ni ddarparwyd arfarniad rheoliadol o ran y Rheoliadau hyn. Gellir cael Nodyn Trosi, sy'n nodi sut y trosir prif elfennau brechu Cyfarwyddeb 2005/94/EC yn y Rheoliadau hyn, oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

a risk assessment indicates that birds on the premises are exposed to a risk of avian influenza.

Regulation 9 provides for measures applying in a vaccination zone or premises that are the subject of a vaccination notice or a vaccination licence. Regulation 10 provides that where emergency vaccination is undertaken before the European Commission has approved the national emergency vaccination plan, there is a general prohibition on the movement of poultry, other captive birds and their eggs from one premises within an emergency vaccination zone to another within an emergency vaccination zone, into or out of any emergency vaccination zone and into or out of any premises that is the subject of a vaccination notice unless the movement is one of the permitted movements listed in the Schedule and the movement is licensed.

Regulations 14 to 24 relate to powers of inspectors, offences and enforcement. Regulation 21 applies offence-related provisions of the Animal Health Act 1981 (c.22) as if the Regulations were made under the Act. Consequently, failure to comply with the Regulations is an offence under section 73 of the Act. Regulation 21(3) provides that a person guilty of an offence under these Regulations is liable on summary conviction to imprisonment for a term not exceeding 3 months or to a fine not exceeding £5000 or both.

Regulation 25 revokes The Avian Influenza (Vaccination) (Wales) Regulations 2006.

A regulatory appraisal has not been prepared in respect of these Regulations. A Transposition Note setting out how the vaccination elements of Directive 2005/94/EC are transposed in these Regulations may be obtained from the National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 2932 (Cy.265)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID, CYMRU

# Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *7 Tachwedd2006* |
| *Yn dod i rym* | *14 Tachwedd 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd(**2**).

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 14 Tachwedd 2006.

**Dehongli**

**2**.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "aderyn caeth arall" ("*other captive bird*") yw unrhyw aderyn a gedwir yn gaeth ac nad yw'n ddofednyn, ac mae'n cynnwys aderyn anwes ac aderyn a gedwir ar gyfer sioeau, rasys, arddangosfeydd, cystadlaethau, ar gyfer bridio neu i'w werthu;

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw arolygydd a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol neu awdurdod lleol at ddibenion y Rheoliadau hyn neu o dan y Ddeddf, ac oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae'n cynnwys arolygydd milfeddygol;

(**1**) 1972 p.68.

(**2**) O.S. 2005/2766.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 2932 (W.265)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH, WALES

# The Avian Influenza (Vaccination) (Wales) (No.2) Regulations 2006

| | |
|---|---|
| *Made* | *7 November 2006* |
| *Coming into force* | *14 November 2006* |

The National Assembly for Wales is designated for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**1**) in relation to the common agricultural policy of the European Community(**2**).

Exercising the powers conferred upon it by that section, the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

**Title, application and commencement**

**1**.-(1) The title of these Regulations is The Avian Influenza (Vaccination) (Wales) (No.2) Regulations 2006.

(2) These Regulations apply in relation to Wales and come into force on 14 November 2006.

**Interpretation**

**2**.-(1) In these Regulations-

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Animal Health Act 1981(**3**);

"avian influenza" ("*ffliw adar*") means an infection of poultry or other captive birds caused by any influenza A virus of the subtypes H5 or H7 or with an intravenous pathogenicity index in six week old chickens greater than 1.2;

"the Directive" ("*y Gyfarwyddeb*") means Council Directive 2005/94/EC on Community measures for the control of avian influenza and repealing

(**1**) 1972 c.68.

(**2**) S.I. 2005/2766.

(**3**) 1981 c.22, amended by S.I. 1992/3293 and the Animal Health Act 2002, c.42. Other amendments are not relevant to these Regulations.

ystyr "arolygydd milfeddygol" ("*veterinary inspector*") yw person a benodwyd felly gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion y Rheoliadau hyn neu o dan y Ddeddf;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") o ran ardal yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal honno;

ystyr "cynllun brechu" ("*vaccination plan*") yw naill ai cynllun brechu brys neu gynllun brechu ataliol;

mae i "cynllun brechu ataliol" yr un ystyr ag sydd i "*preventative vaccination plan*" yn Erthygl 56 o'r Gyfarwyddeb;

mae i "cynllun brechu brys" yr un ystyr ag sydd i "*emergency vaccination plan*" yn Erthygl 53 o'r Gyfarwyddeb;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ;

ystyr "dofednod" ("*poultry*") yw'r holl adar sy'n cael eu magu neu'u cadw'n gaeth i gynhyrchu cig i'w fwyta neu wyau i'w bwyta, cynhyrchu cynhyrchion eraill, ailstocio cyflenwadau o adar hela neu at ddibenion unrhyw raglen fridio ar gyfer cynhyrchu'r categorïau hyn o adar;

ystyr "y Ddeddf" ("t*he Act*") yw Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**);

ystyr "ffliw adar" ("*avian influenza*") yw haint mewn dofednod neu adar caeth eraill a achosir gan unrhyw firws ffliw A o'r is-deipiau H5 neu H7 neu firws sydd â mynegrif pathogenedd mewnwythiennol uwch nag 1.2 mewn cywion ieir chwe wythnos oed;

ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 2005/94/EC ar fesurau Cymunedol i reoli ffliw adar a honno'n Gyfarwyddeb sy'n diddymu Cyfarwyddeb 92/40/EEC(**2**);

ystyr "hysbysiad brechu" ("*vaccination notice*") yw naill ai hysbysiad brechu brys neu hysbysiad brechu ataliol;

mae i "hysbysiad brechu ataliol" ("*preventive vaccination notice*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 7(1)(b)(ii);

mae i "hysbysiad brechu brys" ("*emergency vaccination notice*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 6(1)(b);

(**1**) 1981 p.22, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1992/3293 a Deddf Iechyd Anifeiliaid 2002, p.42. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) OJ Rhif L 10, 14.1.2006, t. 16.

Directive 92/40/EEC(**1**);

"emergency vaccination notice" ("*hysbysiad brechu brys*") has the meaning given by regulation 6(1)(b);

"emergency vaccination plan" ("*cynllun brechu brys*") has the same meaning as it has in Article 53 of the Directive;

"emergency vaccination zone" ("*parth brechu brys*") has the meaning given by regulation 6(1)(a);

"inspector" ("*arolygydd*") means an inspector appointed by the National Assembly or a local authority for the purposes of these Regulations or under the Act, and, unless the context otherwise requires, includes a veterinary inspector;

"local authority" ("*awdurdod lleo*l") means in relation to an area the county council or county borough council for that area;

"National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ;

"occupier" ("*meddiannydd*") means, in relation to any premises, the person in charge of those premises;

"other captive bird" ("*aderyn caeth arall*") means a bird kept in captivity that is not poultry and includes a pet bird and a bird kept for shows, races, exhibitions, competitions, breeding or for sale;

"poultry" ("*dofednod*") means all birds that are reared or kept in captivity for the production of meat or eggs for consumption, the production of other products, for restocking supplies of game or for the purposes of any breeding programme for the production of these categories of birds;

"premises" ("*mangre*") includes any land, building or place;

"preventive vaccination notice" ("*hysbysiad brechu ataliol*") has the meaning given by regulation 7(1)(b)(ii);

"preventive vaccination plan" ("*cynllun brechu ataliol*") has the same meaning as it has in Article 56 of the Directive;

"preventive vaccination zone" ("*parth brechu ataliol*") has the meaning given by regulation 7(1)(b)(i);

"slaughterhouse" ("*lladd-dy*") means an establishment used for slaughtering poultry, the meat of which is intended for human consumption;

(**1**) OJ No. L 10, 14.1.2006, p. 16.

ystyr "lladd-dy" ("*slaughterhouse*") yw sefydliad a ddefnyddir i gigydda dofednod, y mae eu cig wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl;

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw dir, adeilad neu le;

ystyr "meddiannydd" ("*occupier*") o ran unrhyw fangre yw'r person sydd â gofal y fangre honno;

ystyr "parth brechu" ("*vaccination zone*") yw naill ai parth brechu brys neu barth brechu ataliol;

mae i "parth brechu ataliol" ("*preventive vaccination zone*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 7(1)(b)(i);

mae i "parth brechu brys" ("*emergency vaccination zone*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 6(1)(a); ac

mae i "trwydded brechu" ("*vaccination licence*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 7(1)(a).

(2) Mae i ymadroddion Cymraeg a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn sy'n cyfateb i ymadroddion Saesneg a ddiffinnir yn y Gyfarwyddeb yr un ystyr ag sydd i'r ymadroddion Saesneg hynny yn y Gyfarwyddeb.

**Cwmpas y Rheoliadau**

**3**. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i adar a gedwir mewn sw yn ystyr Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Ataliol) (Cymru) 2006(**1**).

**Datganiadau, hysbysiadau a thrwyddedau**

**4**.-(1) O ran datganiadau parth brechu o dan y Rheoliadau hyn -

(a) rhaid iddynt fod yn ysgrifenedig;

(b) caniateir eu diwygio, neu'u dirymu, drwy ddatganiad pellach, ar unrhyw adeg;

(c) rhaid iddynt ddynodi hyd a lled y parth a ddatgenir;

(ch) rhaid iddynt restru neu gyfeirio at y mesurau sy'n gymwys yn y parth ac, os ydynt yn gymwys mewn rhan yn unig o'r parth, bennu ym mha ran y maent yn gymwys; a

(d) rhaid iddynt ddatgan pa gategorïau o adar y mae'r mesurau yn gymwys iddynt.

(2) Rhaid i hysbysiadau a ddyroddir o dan y Rheoliadau hyn fod yn ysgrifenedig a chaniateir eu diwygio neu eu dirymu, drwy hysbysiad pellach, ar unrhyw adeg.

(3) O ran hysbysiadau brechu a ddyroddir o dan y Rheoliadau hyn-

(a) rhaid iddynt restru neu gyfeirio at y mesurau sy'n gymwys yn y fangre ac, os ydynt yn gymwys i ran yn unig o'r fangre, rhaid iddynt bennu i ba ran y maent yn gymwys; a

(**1**) O.S. 2006/2803 (Cy.242).

"vaccination licence" ("*trwydded brechu*") has the meaning given by regulation 7(1)(a);

"vaccination notice" ("*hysbysiad brechu*") means either an emergency vaccination notice or a preventive vaccination notice;

"vaccination plan" ("*cynllun brechu*") means either an emergency vaccination plan or a preventive vaccination plan;

"vaccination zone" ("*parth brechu*") means either an emergency vaccination zone or a preventive vaccination zone;

"veterinary inspector" ("*arolygydd milfeddygol*") means a person appointed as such by the National Assembly for the purposes of these Regulations or under the Act.

(2) Other expressions used in these Regulations that are defined in the Directive have the same meaning as they have in the Directive.

**Scope of the Regulations**

**3**. These Regulations do not apply to birds kept in a zoo within the meaning of the Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) Regulations 2006(**1**).

**Declarations, notices and licences**

**4**.-(1) A declaration of a vaccination zone under these Regulations-

(a) must be in writing;

(b) may be amended or revoked, by further declaration, at any time;

(c) must designate the extent of the zone being declared;

(d) must list or refer to the measures that apply in the zone and, if they apply only in part of the zone, specify to which part they apply; and

(e) must state which categories of birds the measures apply to.

(2) Notices issued under these Regulations must be in writing and may be amended or revoked, by further notice, at any time.

(3) Vaccination notices issued under these Regulations-

(a) must list or refer to the measures that apply on the premises and, if they apply only on part of the premises, specify to which part they apply; and

(**1**) S.I. 2006/2803 (W.242).

(b) rhaid iddynt ddatgan pa gategorïau o adar y mae'r mesurau yn gymwys iddynt.

(4) O ran trwyddedau a roddir o dan y Rheoliadau hyn-

(a) rhaid iddynt fod yn ysgrifenedig;

(b) caniateir iddynt fod yn gyffredinol neu'n benodol;

(c) caniateir iddynt fod yn ddarostyngedig i unrhyw amod y mae'r person sy'n rhoi'r drwydded yn barnu ei fod yn angenrheidiol er mwyn lleihau risg lledu ffliw adar; a

(ch) caniateir eu diwygio, eu hatal neu eu dirymu, yn ysgrifenedig, ar unrhyw adeg,

ac yn achos trwyddedau brechu, rhaid iddynt hefyd bennu'r materion a nodir ym mharagraff (3)(a) a (b).

(5) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod hyd a lled unrhyw barth brechu a ddatgenir o dan y Rheoliadau hyn, natur y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gymwys ynddo a dyddiadau ei ddatgan a'i dynnu yn ôl yn cael eu cyhoeddi.

(6) Mae trwyddedau symud a roddir yn yr Alban neu'n Lloegr ar gyfer gweithgareddau y gellid eu trwyddedu yng Nghymru o dan y Rheoliadau hyn yn effeithiol yng Nghymru fel petaent yn drwyddedau symud a roddid o dan y Rheoliadau hyn, ond caiff arolygydd sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd y Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno hysbysiad i unrhyw berson sy'n symud unrhyw beth o dan awdurdod y cyfryw drwydded, gan ei gyfarwyddo i'w symud i'r fangre a bennir yn yr hysbysiad a'i gadw yno neu ei symud y tu allan i Gymru.

(7) Rhaid i berson sy'n symud unrhyw beth o dan awdurdod trwydded symud benodol a roddwyd o dan y Rheoliadau hyn-

(a) cadw'r drwydded, neu gopi ohoni, gydag ef bob amser yn ystod y symudiad trwyddedig;

(b) os gofynnir iddo wneud hynny gan arolygydd awdurdod lleol, arolygydd milfeddygol neu unrhyw un o swyddogion eraill y Cynulliad Cenedlaethol, ddangos y drwydded neu'r copi a chaniatáu i gopi neu ddyfyniad ohoni gael ei gymryd; ac

(c) os gofynnir iddo wneud hynny, roi ei enw a'i gyfeiriad.

(8) Rhaid i berson sy'n symud unrhyw beth o dan awdurdod trwydded symud gyffredinol a roddwyd o dan y Rheoliadau hyn-

(a) cadw gydag ef bob amser yn ystod y symudiad trwyddedig nodyn traddodi sy'n cynnwys manylion-

(i) yr hyn sy'n cael ei symud (gan gynnwys faint ohono);

(ii) dyddiad y symudiad;

(iii) enw'r traddodwr;

(b) must state which categories of birds the measures apply to.

(4) Licences granted under these Regulations-

(a) must be in writing;

(b) may be general or specific;

(c) may be made subject to such conditions as the person granting the licence considers necessary to reduce the risk of the spread of avian influenza; and

(d) may be amended, suspended or revoked, in writing, at any time,

and in the case of vaccination licences, must also specify the matters set out at paragraph (3)(a) and (b).

(5) The National Assembly must ensure that the extent of any vaccination zone declared under these Regulations, the nature of the restrictions and requirements applicable within it and the dates of its declaration and withdrawal are publicised.

(6) Movement licences granted in Scotland or England for activities that could be licensed in Wales under these Regulations have effect in Wales as if they were movement licences granted under these Regulations, but an inspector acting under the direction of the National Assembly may serve a notice on any person moving any thing under the authority of such a licence, directing him or her to move it to and keep it on premises specified in the notice or move it out of Wales.

(7) A person moving anything under the authority of a specific movement licence granted under these Regulations must-

(a) keep the licence or a copy of it with him or her at all times during the licensed movement;

(b) on demand by a local authority inspector, veterinary inspector or other officer of the National Assembly, produce the licence or copy and allow a copy or extract to be taken; and

(c) on such demand, provide his or her name and address.

(8) A person moving anything under the authority of a general movement licence granted under these Regulations must-

(a) keep with him or her, at all times during the licensed movement, a consignment note that contains details of-

(i) what is moved (including its quantity);

(ii) the date of the movement;

(iii) the name of the consignor;

(iv) cyfeiriad y fangre y dechreuwyd y symudiad ohoni;

(v) enw'r traddodai; a

(vi) cyfeiriad y gyrchfangre;

(b) dangos, os gofynnir iddo wneud hynny gan arolygydd awdurdod lleol, arolygydd milfeddygol neu unrhyw un o swyddogion eraill y Cynulliad Cenedlaethol, y nodyn traddodi a chaniatáu i gopi neu ddyfyniad ohono gael ei gymryd; ac

(c) os gofynnir iddo wneud hynny, rhoi ei enw a'i gyfeiriad.

**Gwahardd brechu**

**5**.-(1) Ni chaiff neb frechu unrhyw aderyn yn erbyn ffliw adar ac eithrio pan fo'n ofynnol gan y Cynulliad Cenedlaethol neu wedi'i drwyddedu ganddo.

(2) Nid yw'r gwaharddiad yn gymwys i'r canlynol-

(a) unrhyw beth a wneir o dan awdurdod trwydded a roddwyd o dan erthygl 4 o'r Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig 1998(**1**); neu

(b) rhoi brechlyn at ddibenion ymchwil yn unol â thystysgrif prawf anifeiliaid a roddwyd o dan reoliad 8(3) o Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2005(**2**).

**Brechu brys**

**6**.-(1) Pan fodlonir yr amod ym mharagraff (2), rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, os yw'n barnu ei bod yn angenrheidiol er mwyn lleihau'r risg o ledu ffliw adar-

(a) datgan parth yng Nghymru gyfan neu mewn rhan ohoni, pan fo'r ardaloedd hynny yn cynnwys dofednod neu adar caeth eraill y mae'n barnu y dylid eu brechu, lle y mae'n ofynnol brechu'r adar hynny ar frys yn erbyn ffliw adar ("parth brechu brys"); neu

(b) cyflwyno hysbysiad i feddiannydd unrhyw fangre lle y mae dofednod neu adar caeth eraill y mae'n barnu y dylid eu brechu, lle y mae'n ofynnol brechu'r adar hynny ar frys yn erbyn ffliw adar ("hysbysiad brechu brys").

(2) Yr amod yw bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud asesiad risg sy'n dangos bod bygythiad arwyddocaol ac uniongyrchol y byddai ffliw adar yn ymledu yng Nghymru neu i Gymru oherwydd-

(a) brigiad ffliw adar yn y Deyrnas Unedig;

(**1**) O.S. 1998/463, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 2005/2745, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(iv) the address of the premises from which the movement started;

(v) the name of the consignee; and

(vi) the address of the premises of destination;

(b) on demand by a local authority inspector, a veterinary inspector or other officer of the National Assembly, produce the consignment note and allow a copy or extract to be taken; and

(c) on such demand, provide his or her name and address.

**Prohibition on vaccination**

**5**.-(1) No person is to vaccinate any bird against avian influenza except where required or licensed by the National Assembly.

(2) This prohibition does not apply to-

(a) anything done under the authority of a licence granted under article 4 of the Specified Animal Pathogens Order 1998(**1**); or

(b) administration of a vaccine for research purposes in accordance with an animal test certificate granted under regulation 8(3) the Veterinary Medicines Regulations 2005(**2**).

**Emergency vaccination**

**6**.-(1) Where the condition in paragraph (2) is fulfilled, the National Assembly must, if it considers it necessary to reduce the risk of the spread of avian influenza-

(a) declare a zone in all or part of Wales where there are poultry or other captive birds that it considers should be vaccinated, within which emergency vaccination against avian influenza is required to be carried out (an "emergency vaccination zone"); or

(b) serve a notice on the occupier of any premises where there are poultry or other captive birds that it considers should be vaccinated, on which emergency vaccination against avian influenza is required to be carried out (an "emergency vaccination notice").

(2) The condition is that the National Assembly has carried out a risk assessment which indicates that there is a significant and immediate threat of avian influenza spreading within or into Wales following-

(a) an outbreak of avian influenza within the United Kingdom;

(**1**) S.I. 1998/463, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(**2**) S.I. 2005/2745, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(b) brigiad ffliw adar mewn Aelod-wladwriaeth gyfagos; neu

(c) bod presenoldeb ffliw adar mewn dofednod neu adar caeth eraill mewn trydedd wlad gyfagos wedi'i gadarnhau.

(3) Pan fo parth brechu brys yn cael ei ddatgan, neu pan gyflwynir hysbysiad brechu brys ar ôl i gynllun brechu brys gael ei ddwyn gerbron y Comisiwn Ewropeaidd a'i gymeradwyo ganddo yn unol ag Erthyglau 53 a 54 o'r Gyfarwyddeb, rhaid datgan neu gyflwyno'r hysbysiad yn unol â darpariaethau'r cynllun hwnnw.

(4) Bernir bod unrhyw fangre sy'n rhannol y tu mewn ac yn rhannol y tu allan i barth brechu brys yn gyfan gwbl y tu mewn i'r parth hwnnw.

**Brechu ataliol**

**7.**-(1) Pan fodlonir yr amodau ym mharagraff (2) -

(a) caiff y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â'r cynllun brechu ataliol y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(b), roi trwydded i feddiannydd unrhyw fangre i frechu dofednod, adar caeth eraill neu unrhyw gategori o ddofednod neu adar caeth eraill yn y fangre honno ("trwydded brechu");

(b) rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â'r cynllun brechu ataliol y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(b) ac os yw'n barnu ei bod yn angenrheidiol er mwyn lleihau'r risg o ledu ffliw adar-

(i) datgan parth yng Nghymru gyfan neu mewn rhan ohoni, pan fo'r ardaloedd hynny yn cynnwys dofednod neu adar caeth eraill y mae'n barnu y dylid eu brechu, lle y mae'n ofynnol brechu'r adar hynny yn ataliol yn erbyn ffliw adar ("parth brechu ataliol"); neu

(ii) cyflwyno hysbysiad i feddiannydd unrhyw fangre lle y mae dofednod neu adar caeth eraill y mae'n barnu y dylid eu brechu, lle y mae'n ofynnol brechu'r adar hynny yn ataliol yn erbyn ffliw adar ("hysbysiad brechu ataliol").

(2) Dyma'r amodau-

(a) bod asesiad risg wedi'i wneud gan y Cynulliad Cenedlaethol sy'n dangos bod unrhyw ddofednod neu adar caeth eraill mewn unrhyw ran o Gymru yn agored i risg ffliw adar;

(b) bod cynllun brechu ataliol wedi'i ddwyn gerbron y Comisiwn Ewropeaidd ac wedi'i gymeradwyo ganddo yn unol ag Erthyglau 56 a 57 o'r Gyfarwyddeb.

(b) an outbreak of avian influenza within a nearby Member State; or

(c) confirmation of the presence of avian influenza in poultry or other captive birds in a nearby third country.

(3) Where an emergency vaccination zone is declared, or an emergency vaccination notice is served after an emergency vaccination plan has been submitted to and approved by the European Commission in accordance with Articles 53 and 54 of the Directive, the declaration or service of the notice must be in accordance with the provisions of that plan.

(4) Any premises that are partly inside and partly outside an emergency vaccination zone are deemed to be wholly within it.

**Preventive vaccination**

**7.**-(1) Where the conditions in paragraph (2) are fulfilled, the National Assembly -

(a) may, in accordance with the preventive vaccination plan referred to in paragraph (2)(b), grant a licence to the occupier of any premises to vaccinate poultry, other captive birds or any category of poultry or other captive birds on those premises (a "vaccination licence");

(b) must, in accordance with the preventive vaccination plan referred to in paragraph (2)(b) and if it considers it necessary to reduce the risk of the spread of avian influenza-

(i) declare a zone in all or part of Wales where there are poultry or other captive birds that it considers should be vaccinated, within which preventive vaccination against avian influenza is required to be carried out (a "preventive vaccination zone"); or

(ii) serve a notice on the occupier of any premises where there are poultry or other captive birds that it considers should be vaccinated, on which preventive vaccination against avian influenza is required to be carried out (a "preventive vaccination notice").

(2) The conditions are-

(a) a risk assessment has been carried out by the National Assembly that indicates that any poultry or other captive birds in any part of Wales are exposed to a risk of avian influenza;

(b) a preventive vaccination plan has been submitted to and approved by the European Commission in accordance with Articles 56 and 57 of the Directive.

(3) Bernir bod unrhyw fangre sy'n rhannol y tu mewn ac yn rhannol y tu allan i barth brechu ataliol yn gyfan gwbl y tu mewn i'r parth hwnnw.

**Pwer i wneud brechu'n ofynnol**

**8**.-(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol, drwy ddatganiad parth brechu neu hysbysiad brechu, ei gwneud yn ofynnol bod dofednod neu adar caeth eraill yn y parth hwnnw neu yn y fangre honno sy'n destun yr hysbysiad hwnnw gael eu brechu.

(2) Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys fel petai'r brechu yn cael ei wneud drwy arfer pwer yn adran 16(1) o'r Ddeddf-

(a) adran 16(2) i 16(17)(**1**)(triniaeth ar ôl bod yn agored i heintiad);

(b) adran 16A(**2**) (lladd anifeiliaid sydd wedi'u brechu); ac

(c) adran 62A(**3**) (lladd: pwer mynediad).

**Mesurau sy'n gymwys mewn parth brechu neu i fangre sy'n destun hysbysiad brechu neu drwydded brechu**

**9**.-(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, mewn datganiad parth brechu neu mewn hysbysiad brechu, neu drwydded brechu, bennu pwy sydd i wneud y gwaith brechu.

(2) Mewn datganiad parth brechu, hysbysiad brechu neu drwydded brechu, caiff y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol ag unrhyw gynllun brechu a gymeradwywyd, osod unrhyw fesurau o fewn y parth brechu, neu'r fangre sy'n destun hysbysiad brechu neu drwydded brechu, sy'n angenrheidiol er mwyn -

(a) rheoli'r math a'r maint o frechlyn i'w ddefnyddio;

(b) rheoli dulliau cyflenwi a storio'r brechlyn a dulliau gwaredu unrhyw frechlyn nas defnyddiwyd;

(c) rheoli rhoi'r brechlyn i'r adar;

(ch) sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw;

(d) sicrhau bod y samplau angenrheidiol o adar yn cael eu cymryd;

(dd) sicrhau bod modd adnabod adar sydd wedi'u brechu;

(e) sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei hysbysu pan fod y gwaith brechu wedi'i gwblhau;

(**1**) Diwygiwyd adran 16 gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 (c.42), adran 7.

(**2**) Mewnosodwyd adran 16A gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002, adran 5.

(**3**) Mewnosodwyd adran 62A gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002, adran 8.

(3) Any premises that are partly inside and partly outside a preventive vaccination zone are deemed to be wholly within it.

**Power to require vaccination**

**8**.-(1) The National Assembly may, in a declaration of a vaccination zone or vaccination notice, require vaccination of poultry or other captive birds in that zone or on premises that are the subject of that notice.

(2) The following provisions of the Act apply as if such vaccination was carried out in exercise of the power in section 16(1) of the Act-

(a) section 16(2) to 16(17)(**1**) (treatment after exposure to infection);

(b) section 16A(**2**) (slaughter of vaccinated animals); and

(c) section 62A(**3**) (slaughter: power of entry).

**Measures applying in a vaccination zone or to premises that are the subject of a vaccination notice or vaccination licence**

**9**.-(1) The National Assembly must, in a declaration of a vaccination zone, a vaccination notice, or a vaccination licence, specify who is to carry out the vaccination.

(2) In a declaration of a vaccination zone, a vaccination notice or a vaccination licence, the National Assembly may, in accordance with any relevant approved vaccination plan, impose any measures within the vaccination zone, or premises which are the subject of a vaccination notice or a vaccination licence, necessary to-

(a) control the type and quantity of vaccine to be used;

(b) control the supply and storage of the vaccine and the disposal of any unused vaccine;

(c) control the administration of the vaccine;

(d) ensure the keeping of records;

(e) ensure that the necessary samples from birds are taken;

(f) ensure that vaccinated birds are identified;

(g) ensure that notification is given to the National Assembly when vaccination has been completed;

(**1**) Section 16 was amended by the Animal Health Act 2002 (c.42), section 7.

(**2**) Section 16A was inserted by the Animal Health Act 2002, section 5.

(**3**) Section 62A was inserted by the Animal Health Act 2002, section 8.

(f) rheoli symudiad unrhyw ddofednod, adar caeth eraill neu'u cynnyrch o'r naill fangre mewn parth i'r llall mewn parth, i mewn i'r parth hwnnw neu allan ohono neu i mewn i'r fangre honno sy'n destun yr hysbysiad neu'r drwydded neu allan ohoni;

(ff) rheoli rhyddhau dofednod neu adar caeth eraill i'r gwyllt;

(g) sicrhau bioddiogelwch digonol pan fydd unrhyw ddofednod, unrhyw adar caeth eraill neu'u cynnyrch yn cael eu cludo;

(ng) sicrhau bod dofednod neu adar caeth eraill sydd yn y parth neu yn y fangre sy'n destun yr hysbysiad neu'r drwydded o dan wyliadwriaeth,

a chaiff osod unrhyw gyfyngiadau ac amodau eraill y mae'n barnu eu bod yn angenrheidiol er mwyn lleihau risg lledu ffliw adar.

(3) Ym mharagraff (2), ystyr "cynnyrch" dofednod neu adar caeth eraill yw unrhyw garcas, ŵy neu unrhyw beth arall sy'n tarddu neu sydd wedi'i wneud (naill ai'n llwyr neu'n rhannol) o ddofednod neu adar caeth eraill neu o garcasau'r cyfryw adar.

(4) Mae paragraffau (1) i (3) yn gymwys er gwaethaf unrhyw ofyniad neu gyfyngiad arall sy'n gymwys mewn unrhyw ran o barth neu fangre oherwydd bod rhan o'r parth neu'r fangre yn dod o fewn parth arall a ddatganwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy'n destun hysbysiad arall a gyflwynwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol neu arolygydd, at ddibenion lleihau'r risg o ledu ffliw adar neu at unrhyw ddiben arall.

(5) Rhaid i unrhyw berson sy'n symud dofednod neu adar caeth eraill o dan y rheoliad hwn neu o dan reoliad 10 gadw cofnod o ddyddiad y symudiad a rhif cofrestru unrhyw gerbyd a ddefnyddir.

(6) Bernir bod lladd-dai, canolfannau pacio a deorfeydd a ddynodwyd o dan y Gorchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Dod o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006(**1**) wedi'u dynodi at ddiben cael dofednod neu wyau (yn ôl y digwydd) a symudir o dan drwydded a roddir o dan y Rheoliadau hyn.

**Brechu brys heb gynllun wedi'i gymeradwyo**

**10**.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn datgan parth brechu brys neu'n cyflwyno hysbysiad brechu brys cyn i gynllun brechu brys gael ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd yn unol ag Erthygl 54 o'r Gyfarwyddeb.

(2) Ni chaiff neb symud unrhyw ddofednod, unrhyw adar caeth eraill, eu carcasau neu unrhyw wyau dofednod neu adar caeth eraill -

(a) o fangre mewn parth i fangre arall yn y parth;

(**1**) O.S. 2006/2927 (Cy.262).

(h) control the movement of any poultry, other captive birds or their products from one premises within a zone to another within a zone, into or out of the zone or into or out of premises that are the subject of the notice or licence;

(i) control the release of poultry or other captive birds into the wild;

(j) ensure adequate biosecurity when any poultry, other captive bird or their products are transported;

(k) ensure surveillance of poultry or other captive birds within the zone or the premises that are the subject of the notice or licence,

and may impose such other restrictions and conditions as it considers necessary to reduce the risk of the spread of avian influenza.

(3) In paragraph (2), "products" of poultry or other captive birds means any carcase, egg or any other thing originating or made (whether in whole or in part) from poultry or other captive birds or from the carcases of such birds.

(4) Paragraphs (1) to (3) apply notwithstanding any other requirement or restriction applying in any part of a zone or premises because that part of the zone or premises falls within another zone declared by the National Assembly, or is the subject of another notice served by the National Assembly or an inspector, for the purposes of reducing the risk of the spread of avian influenza or for any other purpose.

(5) Any person moving poultry or other captive birds under this regulation or regulation 10 must keep a record of the date of the movement and the registration of any vehicle used.

(6) Slaughterhouses, packing centres and hatcheries that are designated under the Avian Influenza and Influenza of Avian Origin in Mammals (Wales) (No.2) Order 2006(**1**) are deemed to be designated for the purpose of receiving poultry or eggs (as the case may be) that are moved under a licence granted under these Regulations.

**Emergency vaccination without an approved plan**

**10**.-(1) This regulation applies when the National Assembly declares an emergency vaccination zone or serves an emergency vaccination notice before an emergency vaccination plan has been approved by the European Commission in accordance with Article 54 of the Directive.

(2) No person may move any poultry, any other captive bird, their carcases or any egg from poultry or other captive birds-

(a) from premises within the zone to other premises within the zone;

(**1**) S.I. 2006/2927 (W.262).

(b) i mewn i'r parth neu allan ohono; neu

(c) i mewn i fangre sy'n destun hysbysiad neu allan ohoni.

(3) Ni fydd paragraff (2) yn gymwys i'r canlynol -

(a) unrhyw un o'r symudiadau a ganiateir ac a restrir yn yr Atodlen os yw'r symudiad hwnnw wedi'i drwyddedu gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu o dan ei gyfarwyddyd;

(b) i ddosbarthiad manwerthol wyau dofednod ac wyau deor eraill a symudiadau sy'n dilyn y cyfryw ddosbarthiad; neu

(c) symudiad carcasau neu wyau i'w gwaredu.

(4) Rhaid i feddiannydd mangre y mae cywion diwrnod oed, dofednod byw (ac eithrio'r rhai sy'n mynd i gael eu cigydda) neu unrhyw adar caeth eraill sy'n cael eu symud o dan unrhyw un o baragraffau 5 i 10 o'r Atodlen, sicrhau bod y cywion diwrnod oed, dofednod neu adar caeth eraill yn cael eu rhoi mewn rhan o'r fangre lle nad oes dofednod eraill.

(5) Rhaid i feddiannydd y fangre y mae dofednod byw (ac eithrio'r rhai sy'n mynd i'w cigydda) neu adar caeth eraill yn cael eu symud iddi o dan baragraff 10 o'r Atodlen, sicrhau bod y dofednod hynny neu'r adar caeth hynny yn cael eu brechu yn ddi-oed os yw brechu'n ofynnol yn y fangre honno gan ddatganiad neu hysbysiad brechu brys o dan reoliad 6(1).

(6) Rhaid i feddiannydd lladd-dy y mae dofednod i'w cigydda yn cael eu symud iddo o dan baragraff 11, 12 neu 13 o'r Atodlen, sicrhau bod y dofednod hynny yn cael eu cigydda'n ddi-oed.

(7) Mae paragraffau (4), (5) a (6) yn gymwys o ran yr un symudiadau-

(a) o barth sy'n gyfystyr â pharth brechu brys a ddatgenir yn yr Alban, Lloegr neu Ogledd Iwerddon; neu

(b) o fangre sy'n destun hysbysiad sy'n gyfystyr â hysbysiad brechu yn yr Alban, Lloegr neu Ogledd Iwerddon,

pan fo'r parth hwnnw wedi'i ddatgan, neu pan fo'r hysbysiad hwnnw wedi'i gyflwyno, cyn i gynllun brechu brys gael ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd yn unol ag Erthygl 54 o'r Gyfarwyddeb.

(8) Nid yw paragraff (7) ond yn gymwys os yw meddiannydd y fangre y mae'r peth yn cael ei symud iddi yn ymwybodol, neu y mae'n rhesymol iddo fod yn ymwybodol, ei fod wedi cael ei symud o'r cyfryw barth neu o'r cyfryw fangre o dan y cyfryw hysbysiad.

(b) into or out of the zone; or

(c) into or out of premises that are the subject of a notice.

(3) Paragraph (2) does not apply to-

(a) any of the permitted movements listed in the Schedule if that movement is licensed by a veterinary inspector or an inspector acting under his or her direction;

(b) the retail distribution of poultry eggs, other hatching eggs, and movements subsequent to such distribution; or

(c) the movement of carcases or eggs for disposal.

(4) The occupier of premises to which day-old chicks, live poultry (except those going for slaughter) or other captive birds are moved under any of paragraphs 5 to 10 of the Schedule, must ensure that those day-old chicks, poultry or other captive birds are placed in a part of premises where there is no other poultry.

(5) The occupier of premises to which live poultry (except those going for slaughter) or other captive birds are moved under paragraph 10 of the Schedule, must ensure that those poultry or other captive birds are vaccinated without delay if vaccination is required at those premises by a declaration or emergency vaccination notice under regulation 6(1).

(6) The occupier of a slaughterhouse to which poultry for slaughter are moved under paragraph 11, 12 or 13 of the Schedule, must ensure that those poultry are slaughtered without delay.

(7) Paragraphs (4), (5) and (6) apply in respect of the same movements-

(a) from a zone equivalent to an emergency vaccination zone declared in Scotland, England or Northern Ireland; or

(b) from premises which are the subject of a notice equivalent to a vaccination notice in Scotland, England or Northern Ireland,

where that zone has been declared, or that notice has been served, before an emergency vaccination plan has been approved by the European Commission in accordance with Article 54 of the Directive.

(8) Paragraph (7) only applies if the occupier to whose premises the thing is moved is aware, or should reasonably have been aware, that it has been moved from such a zone or from premises under such a notice .

**Methu â brechu anifeiliaid a bennir i'w brechu**

**11**. Rhaid i unrhyw berson a ŵyr neu a dybia nad yw aderyn wedi'i frechu fel y mae'n ofynnol gan y Cynulliad Cenedlaethol hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer yr ardal lle y mae'r aderyn hwnnw ar unwaith.

**Glanhau a diheintio cerbydau: darparu cyfleusterau, cyfarpar a deunyddiau**

**12**. Pan fo glanhau a diheintio cerbydau yn ofynnol mewn unrhyw fangre o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i feddiannydd y fangre honno ddarparu cyfleusterau digonol a chyfarpar a deunyddiau priodol ar gyfer y gwaith glanhau a diheintio hwnnw.

**Newid meddiannaeth mangreoedd o dan gyfyngiad**

**13**.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os nad yw ceidwad unrhyw ddofednod neu unrhyw adar caeth eraill yn gallu eu symud oddi ar y fangre pan ddaw ei hawl i feddiannu'r fangre neu odanynt i ben oherwydd cyfyngiad ar symud a osodwyd gan y Rheoliadau hyn ac mae'n parhau i fod yn gymwys am saith niwrnod ar ôl tynnu'r cyfryw gyfyngiad.

(2) Rhaid i'r person sydd â hawl i feddiannu'r fangre pan ddaw hawl y ceidwad i'w meddiannu i ben -

(a) darparu unrhyw gyfleusterau, ar gyfer bwydo, tendio neu ddefnyddio'r dofednod neu'r adar caeth eraill mewn ffordd arall (gan gynnwys eu gwerthu), y bydd ar y ceidwad angen rhesymol amdanynt; a

(b) caniatáu i'r ceidwad hwnnw ac unrhyw berson a awdurdodir ganddo gael mynd i'r fangre ar adegau rhesymol i fwydo, tendio neu ddefnyddio'r dofednod neu'r adar caeth eraill mewn ffordd wahanol.

(3) Os nad yw'r ceidwad yn gallu neu os nad yw'n fodlon bwydo neu dendio'r dofednod neu'r adar caeth eraill, rhaid i'r person sydd â hawl i feddiannu'r fangre gymryd y camau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y dofednod neu'r adar hynny yn cael eu bwydo a'u tendio'n iawn.

(4) Mae ceidwad y dofednod neu adar caeth eraill yn atebol i dalu'r costau rhesymol yr eir iddynt o dan y rheoliad hwn gan unrhyw berson sy'n eu bwydo neu'n eu tendio, neu'n darparu cyfleusterau ar gyfer eu bwydo, eu tendio neu eu defnyddio fel arall.

**Darparu cymorth neu wybodaeth a chydweithrediad rhesymol**

**14**.-(1) Rhaid i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo roi cymorth rhesymol neu wybodaeth resymol i berson

**Failure to vaccinate animals specified for vaccination**

**11**. Any person who knows or suspects that a bird has not been vaccinated as required by the National Assembly must immediately notify the Divisional Veterinary Manager appointed by the National Assembly for the area in which that bird is located.

**Cleansing and disinfection of vehicles: provision of facilities, equipment and materials**

**12**. Where cleansing and disinfection of vehicles is required at any premises under these Regulations, the occupier of those premises must provide adequate facilities and proper equipment and materials for that cleansing and disinfection.

**Change of occupation of premises under restriction**

**13**.-(1) This regulation applies if the keeper of any poultry or other captive bird is unable to move it from premises on the termination of his or her right of occupation because of a movement restriction imposed by or under these Regulations and continues to apply for seven days after any such restriction has been removed.

(2) The person entitled to occupation of the premises on termination of the keeper's right of occupation must-

(a) provide such facilities for feeding, tending or otherwise using the poultry or other captive bird (including selling it) as the keeper may reasonably require; and

(b) allow entry to the premises to that keeper and any person authorised by him or her at reasonable times for feeding, tending or otherwise using the poultry or other captive bird.

(3) If the keeper is unable or unwilling to feed or tend the poultry or other captive bird, the person entitled to occupation of the premises must take such steps as are necessary to ensure it is properly fed and tended.

(4) The keeper is liable to pay the reasonable costs incurred under this regulation by any person feeding or tending it, or providing facilities for feeding, tending or otherwise using it.

**Provision of reasonable assistance or information and cooperation**

**14**.-(1) Any person required to give reasonable assistance or information to a person performing

sy'n cyflanwi swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn wneud hynny'n ddi-oed onid oes ganddo achos rhesymol dros beidio â gwneud hynny.

(2) Ni chaiff neb ddifwyno, cuddio neu dynnu unrhyw farc a ddodwyd ar unrhyw aderyn neu beth gan unrhyw berson sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn.

**Gwybodaeth anwir**

**15**. Ni chaiff neb roi gwybodaeth y mae'n gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol i berson sy'n cymryd camau wrth weithredu'r Rheoliadau hyn.

**Cadw a dangos cofnodion**

**16**.-(1) Rhaid i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo gan y Rheoliadau hyn wneud neu gadw cofnod-

(a) ei gadw am o leiaf deuddeng mis ar ôl y dyddiad pan wnaed y cofnod (oni bai iddo gael ei gyfarwyddo fel arall o dan y Rheoliadau hyn);

(b) ei ddangos i arolygydd os bydd yn gofyn amdano a rhoi copïau ohono iddo os bydd yn gofyn amdanynt.

(2) Caiff arolygydd fynd i mewn i unrhyw fangre at ddiben arolygu unrhyw gofnodion y mae'n ofynnol eu cadw o dan y Rheoliadau hyn a chaiff-

(a) copïo'r cofnodion hynny (ar ba ffurf bynnag y'u delir);

(b) ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw gofnodion cyfrifiadurol yn cael eu llunio ar ffurf y gellir mynd â hwy; ac

(c) mynd ag unrhyw gofnodion a'u dal dan gadwad.

(3) Rhaid i arolygydd, os gofynnir iddo wneud hynny, ddychwelyd unrhyw gofnodion y mae wedi'u dal dan gadwad ar ôl iddo eu copïo neu ar ôl iddo orffen eu harolygu.

**Costau cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn**

**17**. Rhaid i'r costau y mae unrhyw berson yn mynd iddynt wrth gymryd unrhyw gamau sy'n ofynnol, neu wrth ymatal rhag cymryd camau sy'n waharddedig gan y Rheoliadau hyn neu odanynt, gael eu talu gan y person hwnnw oni bai i'r Cynulliad Cenedlaethol gyfarwyddo fel arall yn ysgrifenedig.

**Cydymffurfio â hysbysiadau, datganiadau neu drwyddedau**

**18**. Mae unrhyw drwyddedai, person y cyflwynir hysbysiad iddo, neu berson y mae datganiad yn gymwys iddo o dan y Rheoliadau hyn, ac sy'n mynd yn groes i'r gofynion neu'r cyfyngiadau yn y drwydded honno, yn yr hysbysiad hwnnw neu yn y datganiad hwnnw, neu sy'n methu â chydymffurfio â hwy, yn euog o dramgwydd.

functions under these Regulations must, unless he or she has reasonable cause, do so without delay.

(2) No person is to deface, obscure or remove any mark applied to any bird or thing by any person performing functions under these Regulations.

**False information**

**15**. No person is to provide to a person performing functions under these Regulations information which he or she knows to be false or misleading.

**Retention and production of records**

**16**.-(1) Any person who is required by these Regulations to keep a record must-

(a) retain it for at least twelve months from the date the record is made (unless otherwise required under these Regulations);

(b) produce it on demand to an inspector and provide him or her with copies if required.

(2) An inspector may enter any premises for the purpose of inspecting any records required to be kept under these Regulations and may-

(a) copy any such records (in whatever form they are held);

(b) require any computer records to be produced in a form which can be taken away; and

(c) take any records away and detain them.

(3) An inspector must, if requested, return any records he or she has detained once he or she has copied them or completed his or her inspection of them.

**Costs of compliance with these Regulations**

**17**. The costs incurred by any person in taking any action required, or in refraining from taking action that is prohibited, by or under these Regulations must be met by that person unless the National Assembly directs otherwise in writing.

**Compliance with notices, declarations or licences**

**18**. Any licensee, person on whom a notice is served, or person to whom a declaration applies under these Regulations who contravenes or fails to comply with the requirements or restrictions in that licence, notice or declaration is guilty of an offence.

**Pwerau arolygwyr**

**19**.-(1) Caiff arolygydd, pan fydd yn cyflawni'i swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn, ei gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad, fod y person sydd â gofal unrhyw gerbyd neu gyfarpar yn ei lanhau a'i ddiheintio.

(2) Caiff arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu o dan ei gyfarwyddyd, wrth gyflawni'i swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn-

(a) glanhau a diheintio unrhyw ran o'r fangre neu unrhyw beth ar y fangre honno;

(b) ei gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad, bod meddiannydd unrhyw fangre yn glanhau a diheintio unrhyw ran o'r fangre neu unrhyw beth yn y fangre;

(c) ei gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad, bod meddiannydd unrhyw fangre neu geidwad unrhyw ddofednod neu adar caeth eraill-

(i) yn cadw neu ynysu unrhyw ddofednod, neu unrhyw adar caeth neu anifeiliaid eraill mewn man penodedig;

(ii) gwahanu unrhyw ddofednod, adar caeth neu anifeiliaid oddi wrth unrhyw anifeiliaid neu adar eraill.

(3) Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys fel petai'r Rheoliadau hyn yn Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf(**1**)-

(a) adran 63 (pwerau cyffredinol arolygwyr);

(b) adran 64 (pwerau arolygwyr o ran dofednod);

(c) adran 64A(**2**) (pwerau arolygwyr o ran rhwymedigaethau Cymunedol);

(ch) adran 65(1) i (3) (pŵer i ddal llestri ac awyrennau dan gadwad).

(4) Mae adran 65A o'r Ddeddf(**3**) (arolygu cerbydau) yn gymwys fel petai-

(a) y Rheoliadau hyn yn Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf;

(b) y diffiniad o ddofednod yn adran 87(4) o'r Ddeddf wedi'i estyn i gynnwys pob aderyn; a

(c) pob parth brechu neu fangre a bennir mewn hysbysiad brechu wedi'i ddynodi at ddibenion yr adran honno tra bo'r hysbysiad brechu.

(5) Caiff arolygydd sy'n mynd i mewn i unrhyw fangre o dan reoliad 8 neu baragraff (3)-

(a) marcio unrhyw aderyn neu beth arall at ddibenion eu hadnabod;

(**1**) Estynnwyd y diffiniad o ddofednod yn adran 87(4) o'r Ddeddf i gynnwys dofednod ac adar caeth eraill, fel y'i diffinnir gan y Rheoliadau hyn, gan O.S. 2006/2927 (W.262).

(**2**) Mewnosodwyd adran 64A gan O.S. 1992/3293, rheoliad 2.

(**3**) Mewnosodwyd adran 65A gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 (p.42), adran 10.

**Powers of inspectors**

**19**.-(1) An inspector may, when performing his or her functions under these Regulations, require by notice the person in charge of any vehicle or equipment to cleanse and disinfect it.

(2) A veterinary inspector or an inspector acting under his or her direction may, when performing his or her functions under these Regulations-

(a) cleanse and disinfect any part of premises or any thing on those premises;

(b) require, by notice, the occupier of any premises to cleanse and disinfect any part of those premises or any thing on those premises;

(c) require, by notice, the occupier of any premises or the keeper of any poultry or other captive bird-

(i) to keep or isolate any poultry, other captive bird or animal in a specified place;

(ii) to separate any poultry, other captive bird or animal from any other animal or bird.

(3) The following provisions of the Act apply as if these Regulations were an Order made under the Act(**1**)-

(a) section 63 (general powers of inspectors);

(b) section 64 (powers of inspectors as to poultry);

(c) section 64A(**2**) (powers of inspectors relating to Community obligations);

(d) section 65(1) to (3) (power to detain vessels and aircraft).

(4) Section 65A of the Act(**3**) (inspection of vehicles) applies as if-

(a) these Regulations were an Order made under the Act;

(b) the definition of poultry in section 87(4) of the Act were extended to include all birds; and

(c) every vaccination zone or premises specified in a vaccination notice were designated for the duration of its existence for the purposes of that section.

(5) An inspector who enters any premises under regulation 8 or paragraph (3) may-

(a) mark any bird or other thing for identification purposes;

(**1**) The definition of poultry in section 87(4) of the Act was extended to include poultry and other captive birds, as defined in these Regulations, by S.I. 2006/2927 (W.262).

(**2**) Section 64A was inserted by S.I. 1992/3293, regulation 2.

(**3**) Section 65A was inserted by the Animal Health Act 2002 (c.42), section 10.

(b) cymryd samplau o unrhyw aderyn;

(c) mynd â'r personau a'r pethau ag ef y mae'r arolygydd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol.

(6) Caiff unrhyw berson sy'n mynd i mewn i fangre o dan baragraff (5)(c) fynd yn ôl ati heb neb yn ei hebrwng i gymryd unrhyw gamau pellach sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu neu orfodi'r Rheoliadau hyn.

**Pwerau arolygwyr os ceir diffyg**

**20**.-(1) Os bydd unrhyw berson yn methu â chydymffurfio â gofyniad yn y Rheoliadau hyn neu odanynt, caiff arolygydd gymryd y camau y mae'n barnu eu bod yn angenrheidiol i sicrhau bod y gofyniad yn cael ei fodloni ar gost y person hwnnw.

(2) Mae pwerau arolygydd o dan baragraff (1) yn cynnwys pwerau-

(a) i'w gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad, i unrhyw berson gymryd neu beidio â chymryd camau penodedig mewn perthynas ag unrhyw le, anifail, aderyn, neu beth arall;

(b) i gymryd unrhyw beth i feddiant a'i ddal gan gadwad.

**Tramgwyddau ac achosion**

**21**.-(1) Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys fel petai'r Rheoliadau hyn yn Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf-

(a) adrannau 66 a 66A(**1**) (gwrthod a rhwystro);

(b) adran 67 (dyroddi trwyddedau anwir etc.);

(c) adran 68 (dyroddi trwyddedau etc. sy'n wag);

(ch) adran 71 (tramgwyddau eraill o ran trwyddedau);

(d) adran 71A(**2**), (erlyniadau: terfyn amser);

(dd) adran 73 (tramgwyddau cyffredinol);

(e) adran 77 (arian sy'n adenilladwy yn ddiannod);

(f) adran 79(1) i (4) (tystiolaeth a gweithdrefn),

ac fel petai'r diffiniad o ddofednod yn adran 87(4) o'r Ddeddf wedi'i estyn i gynnwys pob aderyn.

(2) Mae adran 69 o'r Ddeddf (cael trwyddedau etc. drwy dwyll) yn gymwys fel petai trwyddedau a roddir o dan y Rheoliadau hyn wedi'u rhoi o dan Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf.

(**1**) Mewnosodwyd adran 66A gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002, adran 8(2).

(**2**) Mewnosodwyd adran 71A gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002, adran 14.

(b) take samples from any bird;

(c) take with him or her such people and things as he or she considers necessary.

(6) Any person who enters premises under paragraph (5)(c) may return to them unaccompanied to take any further steps necessary to execute or enforce these Regulations.

**Powers of inspectors in case of default**

**20**.-(1) If any person fails to comply with a requirement in or under these Regulations, an inspector may take such steps he or she considers necessary to ensure the requirement is met at the expense of that person.

(2) An inspector's powers under paragraph (1) include powers to-

(a) require, by notice, any person to take or refrain from specified action in respect of any place, animal, bird, vehicle, or other thing;

(b) seize and detain any thing.

**Offences and proceedings**

**21**.-(1) The following provisions of the Act apply as if these Regulations were an Order made under the Act-

(a) sections 66 and 66A(**1**) (refusal and obstruction);

(b) section 67 (issue of false licences etc.);

(c) section 68 (issue of licences etc. in blank);

(d) section 71 (other offences as to licences);

(e) section 71A(**2**), (prosecutions: time limit);

(f) section 73 (general offences);

(g) section 77 (money recoverable summarily);

(h) section 79(1) to (4) (evidence and procedure),

and as if the definition of poultry in section 87(4) of the Act were extended to include all birds.

(2) Section 69 of the Act (falsely obtaining licences etc.) applies as if licences granted under these Regulations were granted under an Order made under the Act.

(**1**) Section 66A was inserted by the Animal Health Act 2002, section 8(2).

(**2**) Section 71A was inserted by the Animal Health Act 2002, section 14.

(3) Mae adran 75 o Ddeddf(**1**)(cosbau ar gyfer tramgwyddau diannod penodol) yn gymwys fel petai'r Rheoliadau hyn yn Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf ac eithrio na chaiff unrhyw gyfnod yn y carchar o ganlyniad i gollfarn ddiannod fod yn hwy na thri mis.

**Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol**

**22**.-(1) Os dangosir bod tramgwydd a wnaed gan gorff corfforaethol-

(a) wedi'i gyflawni drwy gydsyniad neu ymoddefiad swyddog; neu

(b) i'w briodoli i unrhyw esgeulustod ar ei ran,

bydd y swyddog hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o dramgwydd a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Os bydd materion corff corfforaethol yn cael eu rheoli gan ei aelodau, mae paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â gweithredoedd a diffyg gweithredoedd aelod mewn cysylltiad â'i swyddogaethau rheoli fel pe bai'r aelod hwnnw yn un o gyfarwyddwyr y corff.

(3) Ystyr "swyddog", mewn perthynas â chorff corfforaethol, yw cyfarwyddwr, aelod o'r pwyllgor rheoli, prif weithredwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff, neu berson sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd y cyfryw swydd.

**Gorfodi**

**23**.-(1) Rhaid i'r awdurdod lleol orfodi'r Rheoliadau hyn.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol gyfarwyddo, mewn perthynas ag achosion o ddisgrifiad penodol neu unrhyw achos penodol, y bydd yn gorfodi'r Rheoliadau hyn.

**Datgymhwyso darpariaethau i unrhyw berson sy'n gweithredu neu'n gorfodi'r Rheoliadau hyn**

**24**. Nid yw darpariaethau yn y Rheoliadau hyn sy'n gwahardd neu'n cyfyngu ar symud neu ddefnyddio unrhyw beth yn gymwys i'r canlynol wrth iddynt weithredu neu orfodi'r Rheoliadau hyn-

(a) y Cynulliad Cenedlaethol;

(b) arolygydd awdurdod lleol;

(c) unrhyw berson arall a awdurdodir gan y Cynulliad Cenedlaethol neu gan yr awdurdod lleol i weithredu neu orfodi'r Rheoliadau hyn.

(**1**) Diwygiwyd adran 75 gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002, adran 13

(3) Section 75 of the Act(**1**) (penalties for certain summary offences) applies as if these Regulations were an Order made under the Act except that any term of imprisonment on summary conviction must not exceed three months.

**Offences by bodies corporate**

**22**.-(1) If an offence committed by a body corporate is shown-

(a) to have been committed with the consent or connivance of an officer; or

(b) to be attributable to any neglect on his or her part,

the officer as well as the body corporate is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) If the affairs of a body corporate are managed by its members, paragraph (1) applies in relation to the acts and defaults of a member in connection with his or her functions of management as if he or she were a director of the body.

(3) "Officer", in relation to a body corporate, means a director, member of the committee of management, chief executive, manager, secretary or other similar officer of the body, or a person purporting to act in any such capacity.

**Enforcement**

**23**.-(1) These Regulations must be enforced by the local authority.

(2) The National Assembly may direct, in relation to a particular case or to cases of a particular description, that it will enforce these Regulations instead.

**Disapplication of provisions to any person executing or enforcing these Regulations**

**24**. Provisions in these Regulations that prohibit or restrict the movement or use of any thing do not apply to the following in their execution or enforcement of these Regulations-

(a) the National Assembly;

(b) an inspector of the local authority;

(c) any other person authorised by the National Assembly or by the local authority to carry out such execution or enforcement.

(**1**) Section 75 was amended by the Animal Health Act 2002, section 13.

**Dirymu Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) 2006**

**25**. Mae Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) 2006(**1**)drwy hyn wedi'u dirymu.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

7 Tachwedd 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

**Revocation of The Avian Influenza (Vaccination) (Wales) Regulations 2006**

**25**. The Avian Influenza (Vaccination) (Wales) Regulations 2006(**1**) are revoked.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**2**)

7 November 2006

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) O.S. 2006/1761 (Cy.183).

(**2**) 1998 p.38.

(**1**) S.I. 2006/1761 (W.183).

(**2**) 1998 c.38.

YR ATODLEN

Rheoliad 10(3)

Symudiadau a ganiateir

**RHAN 1**

Wyau deor

**1**.-(1) Os bodlonir yr amodau yn is-baragraff (2), symudiad unrhyw ŵy sy'n deor-

(a) o fangre sydd mewn parth brechu i fangre arall sydd mewn parth brechu; neu

(b) o fangre sydd mewn parth brechu, neu sy'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd y tu allan i barth brechu neu nad yw'n destun hysbysiad brechu.

(2) Dyma'r amodau-

(a) mae'r ŵy deor yn tarddu o haid fridio sydd wedi'i harchwilio'n glinigol gan arolygydd milfeddygol nad yw wedi gosod yr haid honno o dan unrhyw gyfyngiadau;

(b) mae wedi cael ei ddiheintio cyn ei anfon yn unol â chyfarwyddiadau a ddyroddir gan arolygydd milfeddygol;

(c) mae i'w gludo yn uniongyrchol i ddeorfa ddynodedig.

(3) Symudiad unrhyw wy deor o fangre sydd y tu allan i barth brechu, neu nad yw'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd mewn parth brechu neu'n destun hysbysiad brechu, ar yr amod ei fod yn cael ei gludo yn uniongyrchol i ddeorfa ddynodedig.

**RHAN 2**

Wyau heblaw wyau deor

**2**.-(1) Os bodlonir yr amodau yn is-baragraff (2), symudiad unrhyw ŵy heblaw wy sy'n deor-

(a) o fangre sydd mewn parth brechu i fangre arall sydd mewn parth brechu; neu

(b) o fangre sydd mewn parth brechu, neu sy'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd y tu allan i barth brechu neu nad yw'n destun hysbysiad brechu.

(2) Yr amodau yw bod yr ŵy yn tarddu o haid ddodwy sydd wedi'i harchwilio'n glinigol gan

SCHEULE

Regulation 10(3)

Permitted movements

**PART 1**

Hatching eggs

**1**.-(1) Provided that the conditions in sub-paragraph (2) are fulfilled, the movement of any hatching egg-

(a) from premises that are within a vaccination zone to other premises that are within a vaccination zone; or

(b) from premises that are within a vaccination zone, or the subject of a vaccination notice, to premises that are outside a vaccination zone or are not the subject of a vaccination notice.

(2) The conditions are-

(a) the hatching egg originates from a breeding flock that has been clinically examined by a veterinary inspector who has not placed that flock under any restrictions;

(b) it has been disinfected before dispatch in accordance with instructions issued by a veterinary inspector;

(c) it is to be transported directly to a designated hatchery.

(3) The movement of any hatching egg from premises that are outside a vaccination zone, or are not the subject of a vaccination notice, to premises that are within a vaccination zone or the subject of a vaccination notice, provided that it is to be transported directly to a designated hatchery.

**PART 2**

Eggs other than hatching eggs

**2**.-(1) Provided that the conditions in sub-paragraph (2) are fulfilled, the movement of any egg other than a hatching egg-

(a) from premises that are within a vaccination zone to other premises that are within a vaccination zone; or

(b) from premises that are within a vaccination zone, or the subject of a vaccination notice, to premises that are outside a vaccination zone or are not the subject of a vaccination notice.

(2) The conditions are that the egg originates from a layer flock which has been clinically examined by a

arolygydd milfeddygol nad yw wedi gosod yr haid honno o dan unrhyw gyfyngiadau ac-

(a) ei fod yn cael ei gludo i ganolfan bacio ddynodedig a'i fod wedi'i bacio mewn deunydd pacio tafladwy a bod pob mesur bioddiogelwch sy'n ofynnol gan y drwydded symud yn cael ei ddefnyddio; neu

(b) ei fod yn cael ei gludo i sefydliad ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion wyau fel a nodir ym Mhennod II o Adran X o Atodiad III i Reoliad (EC) Rhif 853/2004(**1**)er mwyn iddynt gael eu trafod a'u trin yn unol â Phennod XI o Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 852/2004(**2**).

**3**. Symudiad unrhyw ŵy heblaw ŵy deor o fangre sydd y tu allan i barth brechu, neu nad yw'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd mewn parth brechu neu'n destun hysbysiad brechu, ar yr amod bod-

(a) ei fod yn cael ei gludo i ganolfan bacio ddynodedig a'i fod wedi'i bacio mewn deunydd pacio tafladwy a bod pob mesur bioddiogelwch sy'n ofynnol gan y drwydded symud yn cael ei ddefnyddio; neu

(b) ei fod yn cael ei gludo i sefydliad ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion wyau fel a nodir ym Mhennod II o Adran X o Atodiad III i Reoliad (EC) Rhif 852/2004 er mwyn iddynt gael eu trafod a'u trin yn unol â Phennod XI o Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 852/2004.

## RHAN 3

### Cywion diwrnod oed

**4**. Symudiad cyw diwrnod oed o fangre sydd mewn parth brechu i fangre arall sydd mewn parth brechu ar yr amod ei fod yn tarddu o ŵy deor sy'n bodloni'r amodau a nodir ym mharagraff 1(2).

**5**. Symudiad unrhyw gyw diwrnod oed o fangre sydd mewn parth brechu, neu sy'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd y tu allan i barth brechu neu nad yw'n destun hysbysiad brechu, ar yr amod -

(a) nad yw wedi cael ei frechu; a

(b) ei fod yn tarddu o ŵy deor sy'n bodloni'r amodau a nodir ym mharagraff 1(2) neu 2.

**6**. Symudiad unrhyw gyw diwrnod oed o fangre sydd y tu allan i barth brechu, neu nad yw'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd mewn parth brechu neu'n destun hysbysiad brechu.

(**1**) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.55.

(**2**) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.1.

veterinary inspector who has not placed that flock under any restrictions and-

(a) it is being transported to a designated packing centre packed in disposable packaging and all biosecurity measures required by the movement licence are applied; or

(b) it is being transported to an establishment for the manufacture of egg products as set out in Chapter II of Section X of Annex III to Regulation (EC) No. 853/2004(**1**) to be handled and treated in accordance with Chapter XI of Annex II to Regulation (EC) No 852/2004(**2**).

**3**. The movement of any egg other than a hatching egg from premises that are outside a vaccination zone, or are not the subject of a vaccination notice, to premises that are within a vaccination zone or the subject of a vaccination notice, provided that-

(a) it is being transported to a designated packing centre packed in disposable packaging and all biosecurity measures required by the movement licence are applied; or

(b) it is being transported to an establishment for the manufacture of egg products as set out in Chapter II of Section X of Annex III to Regulation (EC) No. 853/2004 to be handled and treated in accordance with Chapter XI of Annex II to Regulation (EC) No. 852/2004.

## PART 3

### Day-old chicks

**4**. The movement of any day-old chick from premises that are within a vaccination zone to other premises that are within a vaccination zone provided that it originates from a hatching egg satisfying the conditions set out in paragraph 1(2).

**5**. The movement of any day-old chick from premises that are within a vaccination zone, or the subject of a vaccination notice, to premises that are outside a vaccination zone or are not the subject of a vaccination notice, provided that-

(a) it has not been vaccinated; and

(b) it originates from a hatching egg satisfying the conditions set out in paragraph 1(2) or 2.

**6**. The movement of any day-old chick from premises that are outside a vaccination zone, or are not the subject of a vaccination notice, to premises that are within a vaccination zone or the subject of a vaccination notice.

(**1**) OJ No. L139, 30.4.2004, p.55.

(**2**) OJ No. L139, 30.4.2004, p.1.

**RHAN 4**

Dofednod neu adar caeth byw eraill

**7**. Symudiad unrhyw ddofednod (ac eithrio'r rhai sy'n mynd i'w cigydda) neu adar caeth byw eraill o fangre sydd mewn parth brechu i fangre arall sydd mewn parth brechu ar yr amod -

(a) bod yr adar wedi'u brechu yn erbyn ffliw adar os yw brechu yn ofynnol yn y fangre o le y symudir hwy gan ddatganiad neu hysbysiad brechu o dan reoliad 6(1); a

(b) bod yr adar wedi cael eu harchwilio'n glinigol gan arolygydd milfeddygol nad yw wedi'u gosod o dan unrhyw gyfyngiadau.

**8**. Symudiad unrhyw ddofednod (ac eithrio'r rhai sy'n mynd i'w cigydda) neu adar caeth byw eraill o fangre sydd mewn parth brechu, neu sy'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd y tu allan i barth brechu neu nad yw'n destun hysbysiad brechu ar yr amod -

(a) nad ydynt wedi cael eu brechu; a

(b) bod yr adar wedi cael eu harchwilio'n glinigol gan arolygydd milfeddygol nad yw wedi'u gosod o dan unrhyw gyfyngiadau.

**9**. Symudiad unrhyw ddofednod byw (ac eithrio'r rhai sy'n mynd i'w cigydda) neu adar caeth eraill o fangre sydd y tu allan barth brechu, neu nad yw'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd mewn parth brechu neu yn destun hysbysiad brechu.

**PART 4**

Live poultry or other captive birds

**7**. The movement of any live poultry (except those going for slaughter) or other captive bird from premises that are within a vaccination zone to other premises that are within a vaccination zone provided that-

(a) it has been vaccinated against avian influenza if vaccination is required at the premises from which it is being moved by a declaration or vaccination notice under regulation 6(1); and

(b) it has been clinically examined by a veterinary inspector who has not placed it under any restrictions.

**8**. The movement of any live poultry (except those going for slaughter) or other captive bird from premises that are within a vaccination zone, or the subject of a vaccination notice, to premises that are outside a vaccination zone or are not the subject of a vaccination notice, provided that-

(a) it has not been vaccinated; and

(b) it has been clinically examined by a veterinary inspector who has not placed it under any restrictions.

**9**. The movement of any live poultry (except those going for slaughter) or other captive bird from premises that are outside a vaccination zone, or are not the subject of a vaccination notice, to premises that are within a vaccination zone or the subject of a vaccination notice.

**RHAN 5**

Dofednod wedi'u brechu i'w cigydda

**10**.-(1) Os bodlonir yr amodau yn is-baragraff (2), symudiad unrhyw ddofednod wedi'u brechu i'w cigydda-

(a) o fangre sydd mewn parth brechu i fangre arall sydd mewn parth brechu; neu

(b) o fangre sydd mewn parth brechu, neu sy'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd y tu allan i barth brechu neu nad yw'n destun hysbysiad brechu.

(2) Dyma'r amodau-

(a) mae'r dofednod wedi'u brechu â brechlyn a bennwyd yn y datganiad neu hysbysiad brechu brys o dan reoliad 6(1);

(b) mae'r adar wedi cael eu harchwilio'n glinigol a'u profi cyn eu llwytho gan arolygydd milfeddygol nad yw wedi'u gosod o dan unrhyw gyfyngiadau;

**PART 5**

Vaccinated poultry for slaughter

**10**.-(1) Provided that the conditions in sub-paragraph (2) are fulfilled, the movement of any vaccinated poultry for slaughter-

(a) from premises that are within a vaccination zone to other premises that are within a vaccination zone; or

(b) from premises that are within a vaccination zone, or the subject of a vaccination notice, to premises that are outside a vaccination zone or are not the subject of a vaccination notice.

(2) The conditions are-

(a) the poultry has been vaccinated with a vaccine specified in the declaration or emergency vaccination notice under regulation 6(1);

(b) it has been clinically examined and tested before loading by a veterinary inspector who has not placed it under any restrictions;

(c) mae'r adar wedi cael eu harchwilio'n glinigol gan arolygydd milfeddygol cyn pen 48 o oriau cyn eu llwytho ac os yw'n briodol mae unrhyw adar dangos clwy yn y fangre hefyd wedi cael eu harchwilio gan arolygydd meddygol;

(ch) maent i'w hanfon yn uniongyrchol i ladd-dy dynodedig.

(c) it has been clinically inspected by a veterinary inspector within 48 hours before loading and if appropriate any sentinel birds on the premises have also been examined by a veterinary inspector;

(d) it is to be sent directly to a designated slaughterhouse.

## RHAN 6

### Dofednod heb eu brechu i'w cigydda

**11**.-(1) Os bodlonir yr amodau yn is-baragraff (2), symudiad unrhyw ddofednod heb eu brechu i'w cigydda-

(a) o fangre sydd mewn parth brechu i fangre arall sydd mewn parth brechu; neu

(b) o fangre sydd mewn parth brechu, neu sy'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd y tu allan i barth brechu neu nad yw'n destun hysbysiad brechu.

(2) Dyma'r amodau-

(a) mae'r dofednod wedi cael eu harchwilio'n glinigol cyn eu llwytho gan arolygydd milfeddygol nad yw wedi'u gosod o dan unrhyw gyfyngiadau;

(b) maent i'w hanfon yn uniongyrchol i ladd-dy dynodedig.

**12**. Symudiad unrhyw ddofednod i'w cigydda o fangre sydd y tu allan i barth brechu, neu nad yw yn destun hysbysiad brechu, i fangre sydd mewn parth brechu neu'n destun parth brechu, ar yr amod eu bod yn cael eu hanfon yn uniongyrchol i ladd-dy dynodedig.

## PART 6

### Unvaccinated poultry for slaughter

**11**.-(1) Provided that the conditions in sub-paragraph (2) are fulfilled, the movement of any unvaccinated poultry for slaughter-

(a) from premises that are within a vaccination zone to other premises that are within a vaccination zone; or

(b) from premises that are within a vaccination zone, or the subject of a vaccination notice, to premises that are outside a vaccination zone or are not the subject of a vaccination notice.

(2) The conditions are-

(a) the poultry has been clinically examined before loading by a veterinary inspector who has not placed it under any restrictions;

(b) it is to be sent directly to a designated slaughterhouse.

**12**. The movement of any poultry for slaughter from premises that are outside a vaccination zone, or are not the subject of a vaccination notice, to premises that are within a vaccination zone or the subject of a vaccination notice, provided that they are to be sent directly to a designated slaughterhouse.

## RHAN 7

### Symudiad dofednod neu adar caeth byw eraill y tu allan i'r Deyrnas Unedig

**13**. Symudiad dofednod neu adar caeth byw eraill o'r Deyrnas Unedig o fangre sydd mewn parth brechu neu sy'n destun hysbysiad brechu ar yr amod bod y symudiad wedi'i awdurdodi gan yr Aelod-wladwriaeth sy'n eu derbyn.

## PART 7

### Movement of live poultry or other captive birds out of the United Kingdom

**13**. The movement of any live poultry or other captive birds out of the United Kingdom from premises that are within a vaccination zone or the subject of a vaccination notice provided that the movement is authorised by the receiving Member State.

## RHAN 8

Dehongli

**14**. Yn yr Atodlen hon, mae mangre sydd i'w mynegi fel un "dynodedig" yn fangre y bernir ei bod yn ddynodedig yn unol â rheoliad 9(6).

## PART 8

Interpretation

**14**. In this Schedule, premises that are expressed to be "designated" are those which are deemed to be designated in accordance with regulation 9(6).

OFFERYNNAU STATUDOL

**2006 Rhif 2932 (Cy.265)**

# ANIFEILIAID, CYMRU

**IECHYD ANIFEILIAID, CYMRU**

Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006

STATUTORY INSTRUMENTS

**2006 No. 2932 (W.265)**

# ANIMALS, WALES

**ANIMAL HEALTH, WALES**

The Avian Influenza (Vaccination) (Wales) (No.2) Regulations 2006

© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£4.00**

W439/11/06 ON